Cenn@d

EBRILL 24 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 165

# Wythnos Cymorth Cristnogol 2024 – 12–18 Mai

## Saith diwrnod, cymaint o ffyrdd i wneud gwahaniaeth

Bob blwyddyn, yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, daw unigolion ac eglwysi Cymru ynghyd i godi arian, gweithredu a gweddïo dros ein cymdogion byd-eang, mewn dathliad o'n gobaith am fyd mwy teg a chyfiawn. Mae pob ymdrech yn cefnogi prosiectau datblygu yng nghymunedau mwyaf bregus y byd.

Gwyddom oll fod yna saith diwrnod mewn wythnos … **Saith diwrnod, cymaint o ffyrdd i wneud gwahaniaeth**, felly! Cyngerdd yng Nghaerffili, efallai, 'holy hike' ym Mhorthcawl, te prynhawn yn Nhyddewi, a chinio cawl yn y Fflint. Bydd nifer yn cydio yn yr her newydd, sef '70 cilometr ym mis Mai' (#70KInMay), mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys Archesgob Andrew ac aelodau tîm Cymorth Cristnogol Cymru.

Mae apêl eleni – **sy'n digwydd rhwng 12 a 18 Mai** – yn canolbwyntio ar waith Cymorth Cristnogol yn Burundi, un o'r gwledydd mwyaf o ran ei phoblogaeth ac un o'r tlotaf yn Affrica. Er ei bod yn dibynnu'n drwm ar amaethyddiaeth, mae'n un o'r gwledydd lleiaf parod i daclo effeithiau newid hinsawdd, yn cynnwys sychder, llifogydd a thirlithriadau. Mae'r argyfwng costau byw byd-eang wedi dwysáu'r heriau; mae dros 70 y cant o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi a thros hanner y plant â diffyg maeth cronig.



Bydd eglwysi Porthcawl yn cynnal Pererindod Porthcawl, neu 'holy hike' eto eleni – diwrnod o gerdded o gapel i gapel, gyda llawer o gymdeithasu, myfyrio a hwyl ar hyd y ffordd!



Meddai Aline Nibogora, 'Mae traddodiadau yn bwysig inni, ac mae gennym amser penodol i weddïo. Mae'n gyfle i sgwrsio gyda Duw, oherwydd rydyn ni i gyd yn dal yn fyw, diolch i ras Duw.' (Llun: Armstrong Too)

Mae Cymorth Cristnogol wedi bod yn gweithio yn Burundi ers 1995 pan ddechreuodd gynnig cymorth dyngarol am y tro cyntaf i bobl oedd wedi goroesi'r rhyfel cartref. Nawr, gyda'n partneriaid lleol, rydym yn helpu i sefydlu Cymdeithasau Cynilo a Benthyg Cymunedol. Mae'r grwpiau hyn, sy'n cael eu harwain gan y gymuned, yn golygu y gall pobl gynilo a benthyg arian. Yna, mae'n bosibl cael busnesau bach sy'n cynnig incwm dibynadwy ac amrywiol fel y gall teuluoedd fwyta'n rheolaidd, cael meddyginiaeth pan mae ei hangen arnynt, ac adeiladu cartrefi mwy diogel.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

'Croesffordd' America nawr yn atseinio tensiynau'r Rhyfel Cartref
Tudalen 2

Ein Gofal am y Greadigaeth
Tudalen 5

Sefydlu Gweinidog a Gofalaeth Newydd
Tudalen 8

*Wythnos Cymorth Cristnogol 2024 – 12–18 Mai*
*Saith diwrnod, cymaint o ffyrdd i wneud gwahaniaeth*
*(parhad o dudalen 1)*

Mae Aline Nibogora yn 35 mlwydd oed ac yn gadeirydd y Gymdeithas Cynilo a Benthyg yn ei phentref. Mae'r gymdeithas yn cefnogi tua 25 o deuluoedd mewn pentref gwledig yn nhalaith Makamba. Cafodd Aline ei cham-drin gan ei gŵr, ei gorfodi i symud o'i chartref, a'i gwahanu oddi wrth ei phlant. Heb le i fyw a hithau'n poeni'n ddyddiol am les ei phlant, gwthiwyd Aline at ymylon eithaf tlodi.

Bu newid mawr ym mywyd Aline pan ymunodd â gweithdy cymunedol dan arweiniad hyfforddwyr a ariannwyd gan Gymorth Cristnogol. Llwyddodd Aline i sicrhau benthyciad i sefydlu busnes a dechrau gwerthu afocados a chnau mwnci.

Roedd busnes Aline yn llwyddiannus, ac o'r diwedd fe lwyddodd i sicrhau bod ei thri mab hynaf yn dod yn ôl i fyw gyda hi. Gall Aline bellach fforddio bwyd iddi hi ei hunan a'i theulu. Llwyddodd hefyd i brynu beic er mwyn gallu cludo'i nwyddau. Ac mae hi wedi prynu paneli solar fel y gall ei phlant ddefnyddio golau fel cymorth i astudio. Meddai Aline: 'Rydyn ni'n gweddïo gyda'n gilydd gan ein bod yn dal yn fyw, diolch i ras Duw ... Fe fuon ni drwy amser caled, ond bellach rydyn ni'n gallu gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.' Dros y pum mlynedd nesaf, mae hi'n gobeithio ehangu ei busnes a phrynu melin.

Ar ben hyn, fel cadeirydd ei chymdeithas mae Aline yn defnyddio'i phrofiad i helpu i drawsnewid bywydau teuluoedd eraill sydd am wneud yr un peth ac adeiladu dyfodol mwy disglair gyda'i gilydd. Dywed Aline, 'Os oes gan unrhyw un broblem, fe wnawn ni eu helpu nhw i gael atebion ... mae'r aelodau'n diolch imi am yr hyfforddiant a'r effaith gadarnhaol mae hyn wedi'i gael ar eu bywydau ... Yma yn Burundi, ystyrir cymydog fel aelod o'r teulu.'

Bydd yr arian a godir yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol yn helpu partneriaid y sefydliad i rymuso cymunedau fel un Aline i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol a chynaliadwy o ddod allan o dlodi. Trwy waith Cymorth Cristnogol a'r Wythnos arbennig ym mis Mai, rydym yn rhan o gymuned fawr sydd yn gwthio yn erbyn anghyfiawnder tlodi – mewn undod ag Aline.

Mae Wythnos Cymorth Cristnogol felly'n cynnig saith diwrnod a sawl ffordd o wneud gwahaniaeth. Mae yna amrywiaeth o adnoddau arbennig ar gael i'w harchebu a'u lawrlwytho, gan gynnwys: amlenni coch (wrth gwrs!), defosiwn dyddiol, posteri, trefn gwasanaeth, gweddïau, addoliad pob oedran, baneri a mwy: www.caweek.org. Cofiwch hefyd rannu hanes yr Wythnos gyda ni, gan ddefnyddio'r hashnod **#WythnosCC24** ar Facebook ac X!

## 'Croesffordd' America nawr yn atseinio tensiynau'r Rhyfel Cartref

Gydag etholiadau arlywyddol America yn prysur agosáu a phoblogrwydd Trump yn dangos ei ben unwaith eto, er gwaetha'r holl ddigwyddiadau ers yr etholiad diwethaf yn 2020, mae llenor ac ysgolhaig Americanaidd sy'n cyhoeddi cyfrol am filwyr Cymreig yn Rhyfel Cartref America yn gweld tebygrwydd rhwng America'r 1860au a'r America gyfoes.


Wrth gyhoeddi ei lyfr newydd, *Dros Gyfiawnder a Rhyddid: Y Cambrian Guards, Caethwasiaeth a Rhyfel Cartref America*, dywedodd Jerry Hunter, sydd ar hyn o bryd yn athro ar ymweliad ym Mhrifysgol Havard yn America:

> Mae sawl hanesydd Americanaidd wedi disgrifio'r Rhyfel Cartref fel 'croesffordd' fawr, fel dewis ynglŷn â pha fath o wlad yr oedd yr Unol Daleithiau am fod. Ac mae'r Unol Daleithiau ar groesffordd hynod bwysig eto heddiw, gwaetha'r modd, gyda chynifer o'r Blaid Weriniaethol wedi troi'n 'gwlt personoliaeth' lled-ffasgaidd sy'n credu bod cefnogi Trump yn bwysicach na chyfreithiau'r wlad a democratiaeth ei hun. Ac mae yna lawer o bobl asgell dde yn America hefyd sy'n tanseilio democratiaeth mewn modd sydd hefyd yn hiliol iawn ac yn coleddu baner a hunaniaeth y rhai a fu'n ymladd er mwyn parhau â chaethwasiaeth yn y Rhyfel Cartref. Felly mae hanes y cysylltiad rhwng caethwasiaeth a Rhyfel Cartref America yn hynod o bwysig i'r Unol Daleithiau – ac i'r byd – heddiw.

Mae'r gyfrol yn adrodd hanes rhai o filwyr cyffredin y Cambrian Guards, oedd yn rhan o'r 22ain gatrawd o Droedfilwyr Wisconsin. Roedd y rhan fwyaf o'r milwyr hyn yn medru siarad Cymraeg ac fe enillodd y gatrawd y llysenw *Abolitionist Regiment* gan fod nifer o'i milwyr wedi cymryd safiad cyhoeddus taer yn erbyn caethwasiaeth. Fe wnaethon nhw helpu caethweision i ddianc, hyd yn oed pan oedd y weithred yma'n tynnu'n groes i ddymuniad llywodraeth ac awdurdodau milwrol yr Unol Daleithiau.

"Rhaid cyfaddef bod y deunydd wedi deffro'r nofelydd ynof, ond penderfynais mai'r peth gorau fyddai ceisio glynu wrth y ffeithiau a rhoi'r flaenoriaeth i eiriau, meddwl a dychymyg y milwyr hyn yn hytrach na'm dychymyg innau. Mae hwn yn llyfr ffeithiol, ond eto rwyf yn gobeithio y daw ambell gymeriad yn fyw yn nychymyg y darllenydd," eglurodd Jerry Hunter.

Man cychwyn ei ymchwil oedd ei brofiad yn ysgrifennu ei gyfrol *Llwch Cenhedloedd: y Cymry a Rhyfel Cartref America* a *Sons of Arthur, Children of Lincoln: Welsh writing from the American Civil War* a gweithio ar y gyfres ddogfen ar yr un pwnc ar gyfer Cwmni Da/S4C 'nôl yn 2002.




"Yr hyn a fachodd fy sylw am y grŵp hwn o filwyr Cymraeg ym myddin yr Unol Daleithiau oedd y ffaith bod cymaint o ysgrifau Cymraeg ganddynt ac amdanynt wedi goroesi a bod yr ysgrifau hynny'n rhai hynod ddiddorol," ychwanegodd yr awdur. "Mae'n wych bod gennym gymaint o ffynonellau Cymraeg sy'n deillio'n uniongyrchol o'r profiad hanesyddol hollbwysig hwnnw."

Mae *Dros Gyfiawnder a Rhyddid* gan Jerry Hunter ar gael nawr (£12.99, Y Lolfa).

# Gwahoddiad i Gymdeithasfa'r De o dan nawdd Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Bydd croeso cynnes iawn yn eich aros yn y Gymdeithasfa a gynhelir ddydd Mercher, 1 Mai 2024, yng Nghapel Babell, Zion Newydd, Caerfyrddin (Henaduriaeth Myrddin). Bydd te a choffi ar gael am 9.30 o'r gloch a'r Eisteddiad cyntaf yn dechrau am 10 o'r gloch y bore.

Yn ystod gwasanaeth y Cymun Bendigaid yn yr eisteddiad cyntaf byddwn yn llongyfarch gweinidogion a blaenoriaid sy'n dathlu blynyddoedd maith o wasanaeth ac yn cyflwyno tystysgrifau iddynt. Bydd hwn felly'n gyfarfod cyhoeddus ac edrychwn ymlaen at gael cydnabod gwasanaeth blaenoriaid a gweinidogion sydd wedi ein gwasanaethu – ac yn i parhau wneud hynny – yng Nghymdeithsfa'r De. Ceir adroddiad ar Hanes yr Achos yn Henaduriaeth Myrddin yn ystod eisteddiad y prynhawn.

Bydd hon yn sasiwn hybrid. Mae croeso i chwi ddod i'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb, neu gallwch ymuno drwy Zoom, ac edrychwn ymlaen at gael eich cwmni lle bynnag y byddwch. Os byddwch yn dymuno ymuno efo ni yn y cyfarfod cyhoeddus drwy Zoom, yna cysylltwch efo mi neu efo'r swyddfa yng Nghaerdydd i derbyn y ddolen yn nes at y dyddiad.

Bydd cyfle yn ystod y dydd i archebu llyfrau gan Gyhoeddiadau'r Gair.



Gweddïwn am arweiniad yr Arglwydd ar yr holl weithgareddau.

Yr eiddoch yng Nghrist,

*R. Anthony Platt*
*Ysgrifennydd y Gymdeithasfa*
tonyplatt7@gmail.com

Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Pwyllgor Dathliad Cenhadol Chwiorydd y Gogledd

## Dathliad Cenhadol

**Capel Bethesda, Yr Wyddgrug**
**(CH7 1NZ)**
**2 Mai 2024**

**2.00 Y Parch. Nerys Griffiths, Caernarfon**
**5.00 Y Parch. Ddr Alun Morton Thomas, Llanfair-pwll**
Bydd thema Pwyllgor y Chwiorydd am 2024
yn cael ei lansio:

### Myfi yw'r ffordd, y gwirionedd a'r bywyd

Bydd paned a chacen ar gael yn
y festri rhwng y ddau gyfarfod.

I holi am ddolen Zoom i'r dathliad neu
am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Gwenith Jones (Ysgrifennydd) – 01352 756038
Eirian Roberts (Swyddfa'r Chwiorydd) – 01678 520065

## CYMANFA GANU UNDEBOL DYFFRYN ABERDÂR



CAPEL GREEN STREET, ABERDÂR
**SUL, MAI 12fed, 2024 am 6.30 p.m.**

Arweinydd: **Wil Morus Jones**
Organydd: **Sheridan George**
Llywydd: **Helen Prosser**

Pris y rhaglen: £2
Cysylltwch â Gwyn a Joyce Morgan
24 Bryn Onnen, Penderyn
01685 814348 neu gwyn.morgan4@btinternet.com



# Cenhadu Cwt Car

Mae sêl cist car yn rhywbeth poblogaidd iawn y dyddiau hyn. Fe'u cynhelir hyd a lled y wlad gydol y flwyddyn. Ac fe ellir dod o hyd i fargeinion go dda ynddynt!

Ceir cyfle mewn llefydd o'r fath i eglwysi genhadu i'w cymunedau lleol. Gellir codi stondin mewn marchnad neu ffair yn weddol rwydd. Ac mae'n magu hyder Cristnogion wrth iddynt dystio'n gyhoeddus i'r Arglwydd Iesu Grist.

Cynhaliwyd cenhadaeth ym marchnad dan do Resolfen yng Nghwm Nedd yn ddiweddar. Un bore Sadwrn codwyd stondin mewn hen ffatri a ddefnyddir bellach i gynnal marchnad dan do. Roedd hi mor brysur yno fel bod rhai masnachwyr wedi cyrraedd y safle erbyn pedwar y bore i logi lle.

Darparwyd llenyddiaeth Gristnogol am ddim i'r cyhoedd ac fe hysbysebwyd gweithgareddau'r eglwys leol. Cafwyd sgwrs fuddiol ag ambell unigolyn, ac fe ddarparwyd taflenni gwaith a melysion i blant.

Calondid oedd gweld dwy aelod eglwysig yn cymryd rhai o'r gwahoddiadau ysgrifenedig oddi ar y ford i'w dosbarthu ymhlith mynychwyr y farchnad. Calondid hefyd oedd gweld aelodau eraill yn cynnig yr un taflenni i'r rhai a ddaeth heibio'r stondin. A chalondid ymhellach oedd gweld plant yn dangos diddordeb yn y taflenni gwaith.

Ni chafwyd gwrthwynebiad gan reolwyr y farchnad i'r stondin, ond croeso am ei bod yn cynnig gwasanaeth i'r gymuned leol. Doedd neb yn elyniaethus, er inni brofi difaterwch gan sawl un a ddaeth heibio'r stondin. Nid chwilio am elw ariannol yr oeddem, ond elw ysbrydol.




Nid yw ein cyd-Gymry'n dod mewn i'r eglwys, ac felly rhaid i ni fynd mas atyn nhw. Yn wyneb anwybodaeth remp y genhedlaeth hon o'r Efengyl Gristnogol, mae mawr angen ymestyn mas i'r byd o'n cwmpas. Dyma'n braint a'n cyfrifoldeb.

Gallwch ymuno ag eglwysi eraill yn eich cymuned i drefnu stondin. Gallwch rannu'r un stondin yr un pryd neu fe allwch drefnu rota i sicrhau stondin Gristnogol reolaidd. Y naill ffordd neu'r llall, ceir *pop-up church* yn eich cymuned leol.

Beth am roi cynnig ar godi stondin fel hon yn eich cymuned chi? Mae angen paratoi'n ddigonol ar gyfer achlysur o'r fath. Ond anrhydedd yw cael dwyn tystiolaeth i'r Arglwydd yn ein cymunedau lleol!

*Dewch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno; dewch, er eich bod heb arian; prynwch a bwytewch. Dewch, prynwch win a llaeth, heb arian a heb dâl* (Eseia 55:1).

*Peter Davies*

# Arddangosfa Gelf Merched y Beibl

## Capel Bethesda, Yr Wyddgrug, 2–7 Mai



Bydd arddangosfa bwerus o arlunwaith creadigol yn portreadu merched o'r Beibl yn dod i Gapel Bethesda, yr Wyddgrug, dros benwythnos Gŵyl y Banc ddechrau mis Mai. Trefnwyd yr arddangosfa gan Lois Adams, sy'n weithiwr efengylu creadigol gyda Cwmpawd: Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd.

Mae'r arddangosfa hon o bortreadau o ferched y Beibl yn seiliedig ar straeon sydd wedi ysbrydoli artistiaid drwy'r canrifoedd. Mae dyfalbarhad a nerth merched y Beibl yn parhau i'n hysbrydoli heddiw. Cawn ein cyffwrdd gan eu brwydrau a'u llwyddiannau, sydd wedi ysbrydoli cenedlaethau.

Trwy'r gwaith arlunio cyfoes sydd i'w weld yn yr arddangosfa, gall ymwelwyr brofi personoliaethau a bywydau merched y Beibl mewn ffordd newydd.

Ysbrydolwyd artistiaid yr arddangosfa gan straeon y merched i greu darnau unigryw o gelf, yn cynnwys portreadau, darluniau a gwaith cyfrwng cymysg. Mae pob darn yn dystiolaeth o ddehongliad yr artist o brofiadau'r merched yma, gan roi gogwydd newydd sy'n herio'n syniadau.

Gwahoddir ymwelwyr i gamu i mewn i fyd o greadigrwydd, lle mae gwaith arlunio gwreiddiol yn cael ei weu i straeon oesol o ddewrder, cariad a dyfalbarhad.

Mae amrywiaeth o weithgareddau wedi eu trefnu i gyd-fynd â'r arddangosfa yng Nghapel Bethesda. Bydd yr arddangosfa i'w gweld yn ystod Dathliad Cenhadol Merched y Gogledd yn y capel ddydd Iau, 2 Mai, a bydd ar agor i'r cyhoedd yn ystod bore coffi ddydd Sadwrn, 4 Mai, rhwng 10 ac 1 o'r gloch. Bydd noson o grefft a sgwrs i rieni ifanc nos Wener, 3 Mai, ac edrychwn ymlaen at fore o hwyl i deuluoedd fore Llun, 6 Mai. Hefyd, bwriedir cynnal noson agored o gerddoriaeth a mawl yn y capel nos Sul, 5 Mai, am 6 o'r gloch. Bydd yr arddangosfa ar agor i grwpiau rhwng 3 a 6 Mai, drwy drefniant ymlaen llaw.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch efo: Gwenith Jones – gwenith22@gmail.com

# Ein Gofal am y Greadigaeth

**1. Yr Wythnos Fawr Werdd – 8–16 Mehefin –** https://greatbiggreenweek.com/.

– Dyma gyfle gwych i drefnu gweithgaredd neu ddigwyddiad a chymryd mantais o raglen ledled Prydain fydd yn denu sylw'r cyfryngau. Gallwch dagio'ch digwyddiad i'r faner hon a gobeithio cael sylw lleol i'ch digwyddiad chi. Fel mae'r enw'n awgrymu, mae'r wythnos yn golygu gwneud rhywbeth 'gwyrdd' a denu pobl o'ch cymuned i mewn i rannu'r gweithgaredd a dathlu'r achlysur. Bydd hefyd yn ffordd o godi ymwybyddiaeth o'r ffaith fod angen i ni i gyd wneud ein rhan dros y blaned.

– Mae yna adnoddau a graffeg y gallwch eu defnyddio, gan gynnwys rhai Cymraeg, sy'n lleihau'r gwaith i chi!

– Mae'n bwysig cofrestru eich digwyddiad er mwyn i'r bobl leol a'r cyfryngau wybod amdano a'i fynychu.

– Mae cronfa ariannol hefyd ar gael yng Nghymru i helpu gyda chost digwyddiadau – manylion ar ein gwefan. Byddai'n wych gweld eglwysi'n cydweithio i drefnu ar y cyd mewn tref neu bentref, gyda chyfres o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnos mewn sawl eglwys/capel gwahanol, er enghraifft!

**2. Eglwysi'n Cyfrif Natur 2024 – 8–16 Mehefin –** https://www.caringforgodsacre.org.uk/love-your-burial-ground-week-national-cemeteries-week-and-churches-count-on-nature/

Yr un wythnos yn union, gallech gynnal gweithgaredd ar eich tir/ eich mynwent yn canolbwyntio ar fyd natur. Gallech wahodd pobl i weld a chyfrif pa adar, anifeiliaid, pryfed, coed a blodau gwyllt sydd yno. Dyma bedwaredd flwyddyn y rhaglen ac fe fyddai'n hyfryd gweld mwy o gapeli ac eglwysi o Gymru'n cymryd rhan eleni. Mae'n agored i unrhyw enwad, felly ewch ati i gynllunio a helpu i gael mwy na'r 36 digwyddiad a gynhaliwyd y llynedd yng Nghymru.

Cofrestrwch ar wefan Caring for God's Acre – https://www.caringforgodsacre.org.uk/get-involved/event-register/ – a byddwch yn derbyn pecyn drwy'r post gydag adnoddau i'ch helpu i adnabod rhywogaethau. Mae pecyn hefyd ar gael yn Gymraeg. Dyma ffordd wych o ddenu plant a phobl ifanc o'r ysgol leol neu grwpiau eraill.

Bydd gwefan Eco Church (cyn bo hir) yn cynnwys straeon gan eglwysi a gymerodd ran y llynedd i'ch ysbrydolil!

**3. Green Church Awards 2024**
Os ydy eich capel neu eich eglwys wedi ymwneud â materion gwyrdd a chynaliadwy, yna ystyriwch gyflwyno cais ar gyfer Green Church Awards 2024 y Church Times: https://www.churchtimes.co.uk/green-church.

Mae saith categori ar gael – manylion ar y wefan. Byddai'n wych gweld cyfran sylweddol o geisiadau o Gymru. Mae A Rocha UK ymhlith y noddwyr, ond nid ydym ar y panel beirniadu. Felly, does dim problem gyda'r ffaith fy mod yn eich annog i wneud cais.

Y dyddiad cau yw **30 Mehefin**, felly mae tipyn o amser i chi weithio ar rywbeth.

**4. Lleoedd Lleol ar gyfer Natur –** https://keepwalestidy.cymru/cy/ein-gwaith/cadwraeth/natur/

Yn olaf ... ewch draw i wefan Cadw Cymru'n Daclus i weld mwy am gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Gallwch wneud cais am becynnau garddio am ddim, yn ôl eich dewis. Os byddwch yn llwyddiannus, yn hytrach nag arian i brynu pethau, byddwch yn derbyn planhigion, offer, pridd ac ati. Mae'n gynllun gwych, gyda rhai capeli ac eglwysi'n rhan ohono eisoes, ond maen nhw'n awyddus i glywed gan ragor ar draws Cymru.

*Delyth Higgins*
*Swyddog Eco Eglwysi Cymru*
*A Rocha UK*

# Y Podlediad Presbyteraidd!

**Ydych chi wedi rhoi cynnig ar y podlediad Presbyteraidd eto?**

Dyma rywbeth newydd sbon gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru a fydd yn cael ei gyhoeddi bob mis. Bydd yna le a llais i westeion o'r enwad a'r eglwys yn ehangach. Gan amlaf ceir epilog i gloi gan ein Hysgrifennydd Cyffredinol, y Parch. Nan Powell Davies. Caiff y podlediad ei gynhyrchu a'i gyflwyno gan y Parch. Gethin Russell-Jones, gweinidog gyda'r Bedyddwyr yng Nghaerdydd.


Yn ystod yr Wythnos Fawr, fe ryddhawyd dau bodlediad. Roedd y cyntaf yn ymdrin ag ymatebion y gymuned amaethyddol i ymgynghoriad llywodraeth Cymru ar ffermio cynaliadwy. Bu'r Parchedig Aneurin Owen yn ymweld â thri aelod o eglwysi gofalaeth Bro Aled yn Nyffryn Clwyd gan eu holi am eu barn ar yr argymhellion ynghanol eu prysurdeb ar eu ffermydd. (Clywir lleisiau llawer o'r anifeiliaid hefyd ar y mater!)

Canolbwyntio ar y sefyllfa yn Gaza o safbwynt Cymreig a wna'r ail bodlediad. Clywn yn gyntaf gan y Parchedig Anna Jane Evans, sy'n weinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghaernarfon ac yn rhan o drefnu Gwylnos Heddwch wythnosol yn y dref. Yna ceir cyfraniad gan y Parchedig Mones Farah, sy'n archddiacon o fewn yr Eglwys yng Nghymru ac yn gwasanaethu yn Esgobaeth Tyddewi. Disgrifia Mones ei hun fel Palesteiniad Arabaidd â dinasyddiaeth Israelaidd, a daw â gogwydd unigryw a mewnwelediad personol i'r sgwrs hon.

Mae podlediad yn debyg i raglen radio sydd i'w chael ar y Rhyngrwyd. Gallwch wrando arno ar eich ffôn clyfar, eich tabled, gliniadur neu gyfrifiadur personol. Mae'r podlediad Presbyteraidd ar gael drwy fynd i https://media.rss.com/podlediad-presbyteraidd-presbyterian-podcast/feed.xml

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

**Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd**




**Pennod 22**
**Ochr yn ochr ag eraill**

### Darlleniad: Galatiaid 6:1–6
'Cariwch feichiau eich gilydd, ac felly fe gyflawnwch Gyfraith Crist.' (adn. 2)

### Gweddi
Ynghanol wythnos lawn, Arglwydd, rwy'n ymwybodol mor wag y gall bywyd fod. Er fy mod yn medru fforddio mwy nag un pryd y dydd, rwy'n poeni fy mod yn chwilio am drysor mwy na'r hyn sydd yn fy mhoced. Helpa fi heddiw 'i weld pob mab i ti / yn frawd i mi, O Dduw'. Amen.

### Cyflwyniad
Bydd troi at wefan y BMS (Baptist Missionary Society) neu ddarllen un o gyhoeddiadau'r Gymdeithas Genhadol, fel *Engage*, yn siŵr o gynnig enghreifftiau o Gristnogion sydd am fyw'r Gair. Mae'n anodd i amryw ohonom a fagwyd mewn eglwysi traddodiadol eu cymeriad, mewn gwlad sefydlog a diogel, ddychmygu byw mewn tlodi enbyd a phrofi bywyd cwbl ddifreintiedig. Pwy all ddychmygu bywyd Seeta, gwraig a ddatblygodd y gwahanglwyf yn 12 oed? Oherwydd y pothellau a'r drewdod a ddôi ohonynt, roedd ei chyfoedion yn arbennig yn troi eu cefn arni, ac roedd bywyd yn unig, yn ddigyfeiriad ac anobeithiol. Yn ffodus iddi hi, cafodd groeso yn ysbyty Green Pastures yn Pokhara, Nepal, ysbyty oedd yn canolbwyntio ar helpu gwahangleifion.

Yn Nepal yn 2013–2014 ceid 3,223 o wahangleifion, sef wyth o bob mil o bobl, ac mae'r ysbyty hwn, a agorwyd yn 1957, yn cynnig triniaeth a gofal. Bydd yn cefnogi miloedd o bobl â phob math o anableddau, er mai dim ond 40 o welyau sydd yno a hanner y rheini'n arbennig ar gyfer gwahangleifion. Yn ystod ei chyfnod yn yr ysbyty y daeth Seeta i adnabod Iesu ac ymroi i'w wasanaethu. Bellach mae hi'n gweithio yn yr ysbyty ac yn annog y cleifion i ailddarganfod eu hunaniaeth a'u hunan-barch. Bydd yn siopa ac yn coginio drostynt, yn trin eu gwallt ac yn arbennig yn gweddïo gyda hwy. Dywedodd Jeanie Herbert, arweinydd gweithgareddau'r BMS yn Nwyrain Asia, fod gwaith holistig Seeta ym maes gofal iechyd yn 'arddangos cariad Duw wrth helpu ag anghenion dyddiol y cleifion'.

### Myfyrdod
Beth, tybed, yw ein cyfleoedd ni i ddangos cariad Duw? I ba raddau y byddwn yn chwilio am bobl sydd angen cymorth fel y gallwn wneud rhywbeth cadarnhaol, syml, ac eto'n werthfawr yng nghwmni eraill er mwyn dweud eu bod hwythau'n werthfawr? Mae angen i ni ddeall bod ein ffydd yn Iesu yn ein hannog i estyn cwmni, i ddangos parch a gwasanaethu eraill. Mae'n rhyfedd fel y bydd rhai credinwyr yn gweld ffydd yn gyfyngedig i foliant, tra bydd eraill yn ystyried yr agweddau cymdeithasol a dyngarol fel popeth, ac y gellir hepgor oedfa. Onid yw caru Duw yn golygu caru cyd-ddyn?

Roedd Seeta yn gweld pobl debyg iddi hi ei hun ac roedd yn medru uniaethu â hwy yn eu hofnau a'u teimlad o fod yn ddi-werth. Bydd y sawl sydd wedi profi unigrwydd yn medru cadw cwmni gyda'r unig, y sawl a brofodd lesgedd neu a fu drwy boen ysgariad neu alar yn llwyddo'n fwy effeithiol, efallai, na rhywun na chafodd brofiad tebyg. Ynghanol ei thriniaeth y daeth Seeta i adnabod Iesu a phrofi'r ymdeimlad o'i bresenoldeb yn ei bywyd. Nid oes gan Seeta lawer o fanteision y byd hwn, ond mae'n rhannu'r trysor pennaf sydd ganddi er mwyn eraill. Dyma enghraifft arall o 'Fyw'r Gair'.

### Gweddi
Rho imi nerth i wneud fy rhan,  
i gario baich fy mrawd,  
i weini'n dirion ar y gwan  
a chynorthwyo'r tlawd.

### Cwestiynau i'w hystyried
1. Roedd cymdeithas nifer o drefi Môr y Canoldir yn amser Paul yn gymysg o genhedloedd gwahanol. Ond roedd Paul am i aelodau'r eglwysi arfer esiampl dda a pheidio â chamfeirniadu unrhyw un. A fyddwch yn cytuno gydag ef?
2. Ai rheidrwydd neu reddf yw cynorthwyo pobl eraill?
3. Rhowch enghreifftiau o fod yn gynhwysol yn amser Iesu ac yn ein hoes ni.
4. Pe byddech yn cyfarfod â Seeta nawr, beth garech chi ei ofyn iddi?

---

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***  
**Sul, 28 Ebrill, am 7:30yb a 16:30yp**  
Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni Esyllt Maelor

**Sul, 28 Ebrill, am 12yp**  
Oedfa dan ofal Gareth Ioan, Caerwedros

---

Annwyl olygyddion,

Mae Elfyn Pritchard yn llygad ei le wrth awgrymu yn ei golofn 'O Gefn Gwlad' (17 Ebrill) mai Tudor Davies yw awdur y cwpled:

Llyw fy oes fu llaw fy Iôr,  
A'i efengyl, fy angor.

Dyna esgyll yr englyn a gyfansoddwyd ganddo er cof am ei briod, Morfudd (1921–92). Dyma'r englyn cyfan:

Anwylyd roed ar elor, – er galar  
Gwelaf wawr yn agor;  
Llyw fy oes fu llaw fy Iôr,  
A'i efengyl, fy angor.

Yn gywir,  
Dafydd Roberts  
(Trefor)

# Cofio Morris Williams (Nicander, 1809–74), ficer a llenor, fu farw 150 mlynedd yn ôl

Ganed Morris Williams yng Nghaernarfon ar 20 Awst 1809 a'i godi yn Llangybi, Eifionydd. Derbyniodd ei addysg gynnar yn ysgol Llanymstumdwy. Cafodd ei brentisio'n saer wedi hynny. Gwelwyd bod ganddo ddawn fel bardd ac aeth i orffen ei addysg yn Ysgol y Brenin yng Nghaer a mynd oddi yno i Goleg Iesu, Rhydychen, lle'r enillodd raddau BA ac MA. Cafodd ei ordeinio i'r Eglwys Anglicanaidd a threuliodd ei weinidogaeth gyfan yng ngogledd Cymru. Bu'n gurad yn Nhreffynnon, Bangor, Llanllechid ac Amlwch, ac yna'n rheithor yn Llanrhuddlad ym Môn lle bu farw ar 3 Ionawr 1874. Fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys Santes Rhuddlad. Roedd ganddo yntau a'i briod, Anne, bum mab a thair merch. Bu un o'r meibion yn brifathro Ysgol Friars, Bangor, ac un arall yn brifathro Ysgol Ramadeg y Bont-faen ym Mro Morgannwg.

Bu'n barddoni o ddyddiau cynnar a daeth yn weithgar yn y byd eisteddfodol fel bardd a beirniad. Enillodd y Gadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf a gynhaliwyd yn Aberdâr yn 1861. Darparodd hefyd *Chwedlau Esop ar Gân*. Roedd yn un o arloeswyr y mudiad ucheleglwysig Mudiad Rhydychen yng Nghymru – mudiad crefyddol oedd eisiau gweld dysgeidiaeth a ffurfiau gwasanaeth Catholigaidd yn dychwelyd i Eglwys Loegr. Bu'n gweithio ar fersiwn diwygiedig o Lyfr Gweddi Cyffredin Cymru a gyhoeddwyd yn 1841, sef y fersiwn Cymraeg o'r llyfr gweddïau ac adnodau a ddefnyddir yn amrywiol wasanaethau'r Eglwys Anglicanaidd, yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru. Gwnaeth gyfraniad pwysig i ganu cynulleidfaol yr Eglwys, gymaint felly fel bod y diweddar Athro Bedwyr Lewis Jones yn ei ddisgrifio fel 'emynydd enwad'.

Cyhoeddodd ddwy gyfrol o emynau: *Y Flwyddyn Eglwysig* yn 1843 (ar gynllun *Christian Year* gan John Keble, oedd hefyd yn perthyn i Fudiad Rhydychen) a'r *Psallwyr* yn 1850, sef addasiad mydryddol newydd o'r Salmau (1850) a gafodd ei ddigido i Gymdeithas y Beibl gyda chymorth MissionAssist yn 2021. Roedd eisiau gwneud canu'r salmau yn fwy poblogaidd, a gweld amrywiaeth ehangach o fetrau nag a gafwyd yn *Salmau Cân* Edmwnd Prys yn 1621. Bwriad sylfaenol y ddwy gyfrol oedd llenwi bwlch yng nghaniadaeth gynulleidfaol yr Eglwys.

Mae tri emyn ganddo yn *Caneuon Ffydd* (82, 622, 654). I gloi, dyfynnwn un o'r emynau hyn fel arwydd o'n diolch iddo, sef 'Molwch Arglwydd nef y nefoedd' (Rhif 82). Aralleiriad yw'r emyn o Salm 117. Hon ydy'r salm fyrraf yn y casgliad o Salmau – dim ond dwy adnod. Mae'r salmydd yn galw yn yr adnodau hyn ar yr holl genhedloedd a phobloedd i addoli'r Arglwydd am fod ei gariad mor fawr a'i fod yn Dduw mor ffyddlon:



Molwch Arglwydd nef y nefoedd,  
   holl genhedloedd daear las,  
holl dylwythau'r byd a'r bobloedd,  
   cenwch glod ei ryfedd ras:  
      Halelwia,  
   molwch, molwch enw'r Ion.

Mawr yw serch ei gariad atom,  
   mawr ei ryfedd ras di-lyth,  
ei gyfamod a'i wirionedd  
   sydd heb ball yn para byth:  
      Halelwia,  
   molwch, molwch enw'r Iôn.

(Diolch i Papur Priordy am ganiatâd i gyhoeddi'r erthygl uchod)



# Sefydlu Gweinidog a Gofalaeth Newydd

Roedd nos Wener, 12 Ebrill 2024, yn noson arbennig iawn yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin. Yn ogystal â bod yn oedfa sefydlu'r Parchg Beti-Wyn James yn weinidog ar eglwysi Elim, Ffynnon-ddrain, a Heol Awst, crëwyd gofalaeth newydd, sef Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin, wrth uno Gofalaeth y Priordy (A), Cana (A), a Bancyfelin (EBC), gyda Gofalaeth Heol Awst (A) ac Elim (A). Gan ei bod yn noson bwysig, nid yn unig i'r eglwysi ac i Beti-Wyn, ond i dref Caerfyrddin hefyd, pleser oedd cael presenoldeb maer a maeres y dref, ac Uchel Siryf Dyfed a'i chymar, y mae Beti-Wyn yn gaplan iddynt.



Y rhai a gymerodd ran yn yr oedfa



Y Parch. Tom Defis yn llongyfarch y Parch. Beti-Wyn James



Beti-Wyn a'r gacen arbennig

Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchg Tom Defis, Cadeirydd Gofalaeth Elim a Heol Awst. Wrth groesawu pawb, mynegodd y golled a gafwyd wrth inni gofio am y diweddar Roland Jeremy, ysgrifennydd Elim, a fu'n rhan o'r trafodaethau, ac y claddwyd ei lwch yn gynharach yn y dydd. Organydd y noson oedd John Evans, un o gyfeilyddion Elim.

Y Parchg Catrin Ann, Pentre Morgan, oedd yn gyfrifol am yr Alwad i Addoli, a'r Parchg Sian Elin Thomas, Crymych, a ddarllenodd o'r Gair cyn i'r Parchg Dewi Myrddin Hughes, Clydach, offrymu gair o weddi. Joan Thomas, Cofnodydd Pwyllgor Diaconiaid Gofalaeth Elim a Heol Awst, a roddodd Hanes yr Alwad gan sôn am gyfanrif yr aelodaeth sydd bellach dros 500, a diolch i'r pregethwyr a fu mor barod i dderbyn ein gwahoddiad i ddod atom i gynnal oedfaon pan oeddem yn ddi-weinidog.

Yn gyfrifol am y sefydlu, y rhan hanfodol o'r oedfa, yr oedd Llywydd y noson. Wrth i Beti-Wyn ymateb diolchodd i bawb am bob cymorth, ac am y fraint o gael arwain eglwysi'r Priordy, Cana, a Bancyfelin, am ddwy flynedd ar hugain. Ymhyfrydai fod yr aelodau wedi caniatáu iddi dod i nabod eglwysi'r ardal drwy eu gwasanaethu yn ôl y galw dros y blynyddoedd diwethaf a agorodd y drws at drafodaethau. Ffrwyth y trafodaethau hynny oedd yr achlysur arbennig hwn o sefydlu gofalaeth newydd.

Cyflwynwyd yr emyn urddo o waith y diweddar Barchg O. T. Evans gan Natalie Morgan, Aberteifi, cyn i Sulwyn Thomas, Cadeirydd Gofalaeth y Priordy, Cana, a Bancyfelin, gyflwyno Beti-Wyn ar ran yr ofalaeth honno. Soniodd am y cydweithio a fu gynt ar wahanol adegau, a sut y datblygodd y berthynas ymhellach, gan arwain yn ddigon naturiol at lunio gofalaeth newydd. Estynnodd Bet Jones, Elim, groeso ar gân ar ran Elim a Heol Awst, gan gyfeirio, mewn arddull hwyliog, at y gwahanol agweddau o fywyd Beti-Wyn. Cafwyd eitem ddoniol ar ffurf rap gan blant bach Ysgol Sul Elim, ac ymunodd Beti-Wyn yn yr hwyl gan rapio wrth gyflwyno rhodd fechan iddynt i gyd. Estynnwyd deheulaw cymdeithas i Beti-Wyn gan ysgrifenyddion y pum eglwys, cyn iddynt gyfarch ei gilydd fel arwydd bod cwlwm newydd yn dechrau rhwng y pum eglwys. Y Parchg Guto Llywelyn a gyflwynodd weddi fer dros yr ofalaeth newydd.

Yn dilyn hyn cafwyd cyfarchion gan Jean Lewis, is-gadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin. Soniodd mor braf yw gweld eglwysi'n gwahodd gweinidog newydd atynt, gan obeithio y bydd pawb yn ofalgar ohoni. Wrth i'r Parchg Emyr Williams, cadeirydd Cwrdd Dosbarth Myrddin, estyn cyfarchion ar ran y Cwrdd Dosbarth, cyfeiriodd yn ysgafn at y chwythwm o wynt a ddaeth i'w plith bron i chwarter canrif yn ôl, ac un a fu'n weithgar gyda hwy byth oddi ar hynny.

Pregethwyd gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor, Llandysul, ar y testun: 'Oherwydd yn y nefoedd y mae ein dinasyddiaeth ni, ac oddi yno hefyd yr ydym yn disgwyl Gwaredwr, sef yr Arglwydd Iesu Grist' (Llythyr Paul at y Philipiaid 3:20). Pwysleisiai Paul mai Iesu Grist yw'r Gwaredwr, y gwerinwr o Nasareth, a groeshoeliwyd, ac a atgyfododd ar y trydydd dydd.

I ddwyn noson hanesyddol a llawen i ben, gyda phawb yn llawn brwdfrydedd wrth edrych tua'r dyfodol, canwyd yr emyn olaf, a gwnaed casgliad tuag at Apêl Ffynhonnau Byw Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a Chymorth Cristnogol.

Yna aeth y gynulleidfa o tua dau gant i'r festri i fwynhau swper helaeth, cymdeithasu, a gwylio Beti-Wyn yn torri'r gacen hardd, bwrpasol, o waith Nia Evans, Elim. Yn rhan o addurniadau'r gacen roedd lluniau pum capel yr ofalaeth, y car coch a'r ffôn fach, gyda hi ei hunan, ei gliniadur, a'r Beibl agored, ar y top.

Bu'r noson yn gychwyn ardderchog i'r bennod newydd hon yn hanes y dystiolaeth Gristnogol Gymraeg yng Nghaerfyrddin a Bancyfelin. Diolchwn i Dduw am y cyfle hwn a daeth i'n rhan a gweddïwn am ei fendith ar waith yr ofalaeth.

*Joan Thomas*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru